



Llais yr ymgyrch
mesuryddion clyfar

Rhagolwg ynni clyfar

Awst 2017



Contents

Crynodeb gweithredol	4
----------------------	---

Mesuryddion clyfar - ymwybyddiaeth, gwybodaeth fanwl a phobl a hoffai uwchraddio	7
--	---

Astudiaeth Achos - Gen Shaw	16
-----------------------------	----

Mesuryddion clyfar dyfarniad y rhai sydd ag un yn barod	18
---	----

Astudiaeth Achos - Robert Kirkwood	26
------------------------------------	----

Diffiniadau o is-grwpiau	30
--------------------------	----

Methodoleg yr ymchwil

Cynhaliodd Populus, asiantaeth ymchwil farchnata annibynnol, 9,494 o gyfweiliadau gan ddefnyddio arolwg ar-lein wedi'i deilwra, a ddyluniwyd i fod yn gynrychioliad o boblogaeth Prydain Fawr 21+ oed. Cynhaliwyd y cyfweiliadau rhwng 18 a 31 Mai 2017.

Defnyddiodd cyhoeddiadau blaenorol y *Rhagolwg ynni clyfar* sampl gynrychioliadol o boblogaeth oedolion Prydain Fawr 18+ oed. Mae cyfrifoldeb am dalu biliau'n isel iawn ymhlith pobl 18 i 20 oed mewn cymhariaeth â gweddill poblogaeth Prydain.

Nid yw'r cwsmeriaid mesurydd clyfar sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn o reidrwydd wedi cymryd rhan yn yr ymchwil gan Populus.

Crynodeb gweithredol

Cefndir

Mae bron saith miliwn o fesuryddion nwy a thrydan clyfar bellach wedi eu gosod ar draws Prydain Fawr.* Bydd yr ymgyrch cyflwyno mesuryddion clyfar genedlaethol yn gweld 26 miliwn o aelwydydd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn cael eu huwchraddio gan eu cyflenwr ynni heb unrhyw gost ychwanegol - y trawsnewidiad mwyaf i'n hisadeiledd ynni mewn cenhedlaeth.

Mae ynni'n anghenraid sylfaenol ym mhob cartref. Ond heb system fodern wedi'i digideiddio, mae nwy a thrydan yn parhau'n anweladwy. Mae'n anodd mynnu rheolaeth ar gostau, anodd eu deall ac yn amhosib eu monitro'n gywir.

Nid oes angen i bobl sydd â mesuryddion clyfar ddibynnu ar ddyfalu mwyach mewn perthynas ag ynni cartref. Mae mesuryddion clyfar yn cymryd darlleniadau mesurydd cywir ac yn eu gyrru at gyflenwyr ynni trwy rwydwaith diwifr cadarn - gan olygu nad oes angen biliau wedi'u hamcangyfrif mwyach.

Mae mesuryddion clyfar hefyd yn grymuso defnyddwyr gyda'r wybodaeth y mae ei hangen arnynt i fynnu rheolaeth ar eu nwy a'u trydan. Bydd pob uwchraddiad yn cynnwys sgrîn ynni cartref (IHD), teclyn llaw sy'n dangos gwybodaeth bron mewn amser real am y defnydd o ynni, mewn punnoedd a cheiniogau. Dyna iaith y gallwn i gyd ei deall.

Mae digideiddio system ynni Prydain yn mynd rhagddo erbyn hyn a, fel y bydd yr adroddiad hwn yn ei ddangos, mae eisoes yn trawsnewid y ffordd y mae defnyddwyr yn prynu ac yn defnyddio ynni.

Y Rhagolwg ynni clyfar yw'r baromedr annibynnol mwyaf o farn gyhoeddus ar ynni a mesuryddion clyfar, gyda sampl o bron 10,000 ar draws Prydain Fawr.

Wedi'i gyhoeddi dwywaith y flwyddyn a bellach yn ei drydedd flwyddyn, mae'n darparu cipolwg cywir o ymwybyddiaeth pobl o fesuryddion clyfar a'u hawydd am uwchraddio i'r dechnoleg newydd ar draws Prydain Fawr. Hefyd, mae'n ymchwilio i brofiadau o brynu a defnyddio ynni- ac effaith mesuryddion clyfar ar y profiadau hynny.

Mae **97%** o bobl ar draws Prydain Fawr yn ymwybodol o fesuryddion clyfar**

Hoffai **49%** gael un yn ystod y chwe mis nesaf***

Mae **80%** o bobl sydd â mesuryddion clyfar wedi cymryd o leiaf un cam i leihau faint o ynni maen nhw'n ei ddefnyddio

*Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS), Mesuryddion Clyfar, Adroddiad Chwarterol hyd at ddiwedd Mawrth 2017.

Nifer y mesuryddion clyfar sy'n gweithredu ar draws cartrefi a busnesau ym Mhrydain Fawr

**Yn seiliedig ar boblogaeth oedolion o 48 miliwn 21+ oed (ONS). Trwy gydol yr adroddiad hwn mae pob cyfeiriad at bobl yn golygu'r boblogaeth 21+ oed hon

***Nifer y bobl a hoffai gael mesurydd clyfar yn ystod y chwe mis nesaf nad ydynt wedi uwchraddio eto Gweler t.9 am fanylion pellach

Mae gan **82%**
o bobl sydd â
mesuryddion clyfar
syniad gwell o'u
costau

Canfyddiadau diweddaraf

Mae trawsnewidiad ynni'n digwydd ar draws Prydain Fawr, ond nid ein hisadeiledd ynni mo'r unig beth sy'n newid. Mae'r bobl ar draws Prydain Fawr sy'n defnyddio ynni trwy'r dydd bob dydd i bweru eu cartrefi'n ymuno â'r chwyldro mesuryddion clyfar hefyd.

Mae'r ymgyrch cyflwyno mesuryddion clyfar wedi mynd yn rhan o'n hymwybyddiaeth gyhoeddus genedlaethol, gyda'r adroddiad *Rhagolwg ynni clyfar* hwn yn dangos bod bron 100 y cant o boblogaeth Prydain Fawr yn ymwybodol o fesuryddion clyfar.

Ymysg y rhai nad ydynt wedi uwchraddio i'r dechnoleg newydd eto, mae'r frwdfrydedd dros gael gosodiad mesurydd clyfar yn fuan yn uchel hefyd. Dywed bron hanner y bobl ym Mhrydain Fawr nad oes ganddynt fesuryddion clyfar yr hoffent gael un o fewn y chwe mis nesaf.

I'r rhai sydd â mesurydd clyfar eisoes, mae'r *Rhagolwg ynni clyfar* yn dangos bod mesuryddion clyfar yn symbylydd enfawr mewn perthynas â newid ymddygiad a lleihau'r ynni a wastrefferir gartref. Mae wyth o bob deg o bobl sydd â mesurydd clyfar wedi cymryd camau i leihau eu defnydd o ynni, gyda niferoedd uchel yn adrodd am well ymwybyddiaeth o'r ynni sy'n cael ei ddefnyddio. Mae pobl sydd â mesuryddion clyfar hefyd yn fwy hyderus yn eu profiad o ddefnyddio a phrynu ynni, yn enwedig o ran teimlo bod ganddynt wybodaeth am ba gyflenwr ynni a thariff sy'n iawn iddynt.

Mae'r *Rhagolwg ynni clyfar* hefyd yn dangos bod y defnydd o sgriniau ynni cartref (IHD) yn uchel, gyda naw o bob deg o bobl yn dewis defnyddio'r teclynnau llaw yn eu cartrefi. Y Sgrîn ynni cartref (IHD) yw'r darn mwyaf cyffredin o dechnoleg a ddefnyddir gan bobl i gadw llygad barcud ar eu defnydd o ynni, gyda mwy na thri chwarter o bobl yn gwirio eu IHD yn rheolaidd* a mwy na hanner o'r rhai'n gwirio eu IHD bob dydd.

Mae pobl ar draws Prydain Fawr yn parhau'n fodlon i raddau helaeth ar eu mesuryddion clyfar, gyda 76 y cant yn dweud y byddent yn eu hargymell i bobl eraill. Ac wrth i nifer y bobl sydd â mesuryddion clyfar gynyddu, mae'r nifer o bobl a fyddai'n argymell y dechnoleg yn cynyddu hefyd - mwy na 4.5 miliwn o bobl erbyn hyn.

Byddai
76% o
bobl sydd â
mesuryddion clyfar
yn eu hargymell i
bobl eraill

Mae **74%** o'r
rhai sydd ag IHD
yn ei gwirio'n
rheolaidd

Mae **70%**
o bobl sydd â
mesuryddion clyfar yn
teimlo bod ganddynt
fwy o reolaeth dros eu
defnydd o ynni


*O leiaf nifer o weithiau bob mis

Mesuryddion clyfar
- ymwybyddiaeth,
gwybodaeth fanwl
a phobl a hoffai
uwchraddio

Mae bron pawb ym Mhrydain Fawr yn ymwybodol o fesuryddion clyfar

Mae trawsnewidiad digidol ein system ynni'n prysur mynd yn norm cymdeithasol, gyda phobl yn ymwybodol iawn o'r mesuryddion clyfar modern sydd ar gael iddynt.

Mae ymwybyddiaeth o fesuryddion clyfar yn eithriadol o uchel, gyda bron poblogaeth gyfan Prydain Fawr* yn dweud eu bod wedi clywed amdanynt.



Ffigur 1. Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn ymwybodol o fesuryddion clyfar

*Based on adult population of 48 million aged 21+ (ONS)

Hoffai miliynau o bobl ar draws Prydain Fawr gael mesurydd clyfar

Mae ymwybyddiaeth o fesuryddion clyfar eisoes wedi cyrraedd pwynt trawiadol - ac mae'r awydd am gael gosodiad mesurydd clyfar yn fuan bron yr un mor uchel.

Ar y pwynt hwn yn yr ymgyrch genedlaethol, mae gan 12 y cant o'r boblogaeth fesurydd clyfar yn eu cartref yn barod. Mae hyn yn golygu bod mwy nag un o bob deg o bobl yn elwa o fanteision biliau cywir a gwybodaeth bron mewn amser real mewn punnoedd a cheiniogau.

Ac mae bron hanner y rhai nad ydynt wedi uwchraddio eto eisoes yn dweud yr hoffent gael un - byddai 49 y cant o bobl yn gofyn am un neu'n dderbyn cynnig i gael un dros y chwe mis i ddod.*

Mae hyn yn cyfateb i fwy nag 20 miliwn o bobl ym Mhrydain Fawr** sy'n awyddus i gael gosodiad mesurydd clyfar yn eu cartref yn fuan.



Ffigur 2.

Canran y bobl sy'n dweud bod ganddynt fesurydd clyfar yn eu cartref***



Ffigur 3.

Nifer y bobl a hoffai gael mesurydd clyfar yn ystod y chwe mis nesaf nad ydynt wedi uwchraddio eto

*Mae hyn yn cyfeirio at y bobl nad ydynt wedi uwchraddio i fesurydd clyfar eto sy'n dweud eu bod yn debygol o gysylltu â'u cyflenwr ynni am gael gosodiad mesurydd clyfar neu dderbyn cynnig gosodiad o fewn y chwe mis nesaf. Nid ydym yn adrodd bellach ar duedd i fabwysiadu, a fesurodd y boblogaeth gyfan gan gynnwys pobl yr oedd ganddynt fesurydd clyfar eisoes


**Yn seiliedig ar boblogaeth oedolion o 48 miliwn 21+ oed (ONS)

***Mae pobl sy'n dweud bod ganddynt fesurydd clyfar yn eu cartref wedi'u cynnwys yn y rhif hwn dim ond os oes ganddynt wybodaeth fanwl am y ffeithiau allweddol am fesuryddion clyfar

Mae'r awydd am uwchraddio i fesuryddion clyfar yn gyson ar draws Prydain Fawr

Hoffai mwy nag 20 miliwn o bobl gael gosodiad mesurydd clyfar yn ystod y chwe mis nesaf. Mae cyfran y bobl a hoffai uwchraddio'n parhau'n gyson ar draws Prydain Fawr, gyda phobl yng

Ngogledd-ddwyrain Lloegr a'r Alban yn arbennig o debygol o ofyn am fesurydd clyfar neu dderbyn cynnig i gael un yn ystod y chwe mis nesaf.




Ffigur 4. Dadansoddiad daearyddol yn dangos nifer y bobl a hoffai gael mesurydd clyfar yn ystod y chwe mis nesaf, o'r rhai nad ydynt wedi uwchraddio eto.

Mae awydd pobl am uwchraddio i fesurydd clyfar yn ystod y chwe mis nesaf yn gryf ar draws grwpiau demograffaid gwahanol

Mae'r tebygolrwydd o ofyn am fesurydd clyfar neu dderbyn cynnig gosodiad yn ystod y chwe mis nesaf yn amrywio ar draws grwpiau demograffaid.*

Mae pobl ifainc a'r rhai sy'n rhentu eiddo'n breifat yn arbennig o debygol o eisiau uwchraddio i fesurydd clyfar yn ystod y chwe mis nesaf.



Ffigur 5. Dadansoddiad demograffaid yn dangos nifer y bobl a hoffai gael mesurydd clyfar yn ystod y chwe mis nesaf, o'r rhai nad ydynt wedi uwchraddio eto.

*Gweler t.30 am ddiffiniadau o grwpiau

Mae gan fwy na hanner poblogaeth Prydain Fawr wybodaeth fanwl am fesuryddion clyfar


Mae bron pawb yn ymwybodol o fesuryddion clyfar, ond mae lefelau gwybodaeth fanwl yn uchel hefyd mewn perthynas â gwybodaeth allweddol am y mesuryddion clyfar newydd.

Ar draws Cymru, Lloegr a'r Alban, mae 55 y cant o bobl yn gwybod yn fanwl beth yw mesuryddion clyfar a beth maent yn ei wneud, yn ogystal â sut y gallant gael un.

O fewn poblogaeth yr oedolion 21 oed neu'n hŷn ym Mhrydain Fawr,* dyna fwy na 26 miliwn o bobl sy'n gwybod yn fanwl beth yw mesurydd clyfar.**

Mae'n rhaid i bobl sydd wedi eu cyfrif yn y rhif hwn fedru adnabod y canlynol am fesuryddion clyfar:

- gallwch gael mesurydd clyfar dim ond gan gyflenwr ynni
- mae mesuryddion clyfar yn rhoi biliau cywir yn lle amcangyfrifon misol
- mae mesuryddion clyfar yn galluogi i chi weld eich defnydd o ynni mewn punnoedd a cheiniogau, bron mewn amser real



Ffigur 6.

Gwybodaeth fanwl am beth yw mesurydd clyfar ymysg poblogaeth Prydain Fawr

*Yn seiliedig ar boblogaeth oedolion o 48 miliwn 21+ oed (ONS)

**Newidiadau mewn methodoleg

-Defnyddiodd cyhoeddiadau blaenorol y Rhagolwg ynni clyfar sampl gynrychiadol o boblogaeth poblogaeth oedolion Prydain Fawr 18+ oed. Mae cyfrifoldeb am dalu biliau'n isel iawn mewn cymhariaeth â gweddill poblogaeth Prydain. Defnyddir sampl o'r boblogaeth oedolion 21+ oed erbyn hyn

-Mae geiriad y cwestiwn am y gosodiad wedi ei ddiweddarau o'r adroddiadau blaenorol, i adlewyrchu y gellir derbyn mesuryddion clyfar dim ond gan gyflenwr ynni ond y gallant gael eu gosod gan drydydd parti

Mae gwybodaeth bod mesuryddion clyfar yn darparu gwybodaeth mewn punoedd a cheiniogau'n arbennig o uchel

O ran gwybodaeth fanwl am fesuryddion clyfar, mae angen i bobl ddeall tair ffaith sy'n gyfystyr â gwybodaeth fanwl. Mae poblogaeth Prydain Fawr yn arbennig o wybodus mewn perthynas â phob un o'r ffeithiau allweddol unigol hyn am fesuryddion clyfar.

Mae tua thri chwarter o'r rhai a holwyd yn ymwybodol bod mesuryddion clyfar yn dangos i chi faint o ynni rydych yn ei ddefnyddio mewn punnoedd a cheiniogau. Mae cyfran debyg yn gwybod bod mesuryddion clyfar yn darparu biliau cywir, ac y gallwch gael mesurydd clyfar dim ond gan gyflenwr ynni.

Mae mesuryddion clyfar yn galluogi i chi weld eich defnydd o ynni mewn punnoedd a cheiniogau, bron mewn amser real

76%

Mae mesuryddion clyfar yn rhoi biliau cywir yn lle amcangyfrifon misol

75%

Gallwch gael mesurydd clyfar dim ond gan gyflenwr ynni

74%

Ffigur 7.

Canran y boblogaeth sy'n deall pob cydran unigol o'r tair cydran gyffredinol sy'n gyfystyr â gwybodaeth fanwl am beth yw mesurydd clyfar

Mae gwybodaeth am fesuryddion clyfar yn uchel ledled y wlad

Mae gwybodaeth fanwl am fesuryddion clyfar yn drawiadol ar draws y wlad, gyda Chymru a Gogledd-ddwyrain Lloegr yn dangos lefelau arbennig o uchel o wybodaeth fanwl.




Figure 8.


Dadansoddiad daearyddol yn dangos gwybodaeth fanwl am fesuryddion clyfar ar draws Prydain Fawr

Mae gwybodaeth fanwl yn amrywio ar draws grwpiau demograffaid gwahanol

Mae gwybodaeth fanwl yn uchel ar draws y mwyafrif o grwpiau demograffaid,* ond mae rhai grwpiau'n fwy tebygol na rhai eraill o feddu ar wybodaeth am ffeithiau allweddol am fesuryddion clyfar.

Po fwyaf eich oedran, mwyaf yr ydych yn debygol o feddu ar wybodaeth fanwl am y dechnoleg newydd, gyda'r grwpiau

55+ a 65+ oed yn rhagori ar y cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer gwybodaeth fanwl fesul 10 ac 11 pwynt canrannol yn ôl eu trefn. Mae gan bobl sydd â chyflwr iechyd corfforol neu anabledd yn eu haelwyd lefel wybodaeth uwch na'r cyfartaledd am fesuryddion clyfar.



Ffigur 9. Gwybodaeth fanwl am fesuryddion clyfar wedi'i dadansoddi fesul is-grŵp demograffaid

*Gweler t.30 am ddiffiniadau o grwpiau

Astudiaeth achos:

Gen Shaw, Milton Keynes, Swydd Buckingham

Mae Gen yn dwlu ar y rheolaeth y mae ei mesurydd clyfar wedi'i rhoi iddi mewn perthynas ag ynni cartref. Nid oes rhaid iddi roi darlleniadau mesurydd neu ddelio â straen biliau wedi'u hamcangyfrif mwyach. Mae hi'n byw gyda'i phartner a dau o blant mewn tŷ pâr tair llofft ym Milton Keynes.

"Penderfynais gael gosodiad mesurydd clyfar yn fuan ar ôl i rywun ddod i ddarllen fy mesurydd ac argymhell y dechnoleg newydd i mi. Roeddwn i'n arfer gorfod mynd i'r cwpwrdd i gael y darlleniadau a dywedodd na fyddai angen i mi wneud hynny mwyach neu ddelio â biliau wedi'u hamcangyfrif petawn yn uwchraddio i fesurydd clyfar.

"Roedd y gosodiad yn syml tu hwnt, cyflym iawn a dim problemau o gwbl.

"Mae cael mesurydd clyfar wedi rhoi cymaint yn fwy o reolaeth i mi. Nid oes angen i mi boeni mwyach p'un a fyddaf mewn dyled neu bennu i fyny mewn credyd, rhywbeth nad oeddwn yn siŵr ohono'n flaenorol.

"A bod yn onest doeddwn i ddim yn deall sut roedd bilio'n gweithio o gwbl, ond erbyn hyn gyda

fy mesurydd clyfar a sgrîn ynni cartref, gallaf weld faint yr wyf wedi'i ddefnyddio dros y mis diwethaf a chadw llygad ar faint yr wyf yn defnyddio ar unrhyw adeg benodol.

Rwy'n hoffi medru gweld beth mae ein hynni'n ei gostio mewn punnoedd a cheiniogau hefyd.

"Rwy'n hoffi'r golau lliw ar y sgrîn ynni cartref yn benodol, y maent yn newid o wyrdd i felyngoch i goch gan ddibynnu ar faint o ynni rydym yn ei ddefnyddio. Mae'n ffordd hynod gyflym a hwylus o weld os yw rhywbeth yn defnyddio llawer o ynni neu os ydych wedi anghofio diffodd rhywbeth.

"Un tro yn fuan ar ôl i ni gael y gosodiad mesurydd clyfar, roedd y goleuadau wedi troi'n goch a dechreuodd y plant redeg o gwmpas y tŷ'n diffodd pethau i gael e'n ôl i wyrdd.

"Rwy'n cadw'r sgrîn ynni cartref wrth y degell ac yn cadw llygad ar y lliwiau bob dydd, ac wedyn rwy'n gwirio bob tair wythnos i weld faint rydym yn ei wario yn ystod y mis cyfredol.

Ers cael ei mesurydd clyfar rydym wedi arbed tua £15-£20 y mis, y rhan fwyaf ohono oddi ar ein biliau trydan.




Mesuryddion clyfar -
dyfarniad y rhai sydd
ag un yn barod

Byddai tua thri chwarter o bobl sydd â mesuryddion clyfar yn eu hargymell i ffrindiau a theulu

Mae bron dwy filiwn yn fwy o fesuryddion clyfar bellach yn weithredol ers y *Rhagolwg ynni clyfar diwethaf* - gan olygu bod bron saith miliwn o fesuryddion clyfar bellach yn weithredol ar draws Prydain Fawr.

Wrth i fwy o ddefnyddwyr brofi rheoli eu hynni yn yr oes ddigidol, mae boddhad ar fesuryddion clyfar yn parhau'n hynod o uchel. Byddai saith deg chwech y cant o'r rhai sydd wedi uwchraddio i fesurydd clyfar yn eu hargymell i'w ffrindiau a theulu.

Ac wrth i nifer y bobl sydd â mesuryddion clyfar gynyddu, felly y mae nifer y bobl sy'n debygol o argymell, gyda mwy na 4.5 miliwn o bobl sydd â mesuryddion clyfar ym Mhrydain Fawr yn argymell y dechnoleg newydd. Dyma gynnydd o bron miliwn o bobl yn adrodd am lefelau boddhad uchel ar eu mesuryddion clyfar ers adroddiad diwethaf y *Rhagolwg ynni clyfar*.




Ffigur 10. Tebygolrwydd o argymell mesurydd clyfar i eraill (ymysg pobl sydd â mesuryddion clyfar)

*Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS), Mesuryddion Clyfar, Adroddiad Chwarterol hyd at ddiwedd Mawrth 2017. Nifer y mesuryddion clyfar sy'n gweithredu ar draws cartrefi a busnesau ym Mhrydain Fawr

Mae pobl sy'n defnyddio mesuryddion clyfar rhagdalun arbennig o debygol o argymell mesuryddion clyfar

Mae pobl ar draws pob grŵp demograffaid* yn adrodd am lefelau boddhad uchel gyda'u mesuryddion clyfar. Mae pobl sy'n defnyddio mesuryddion clyfar rhagdalun arbennig o fodlon ar eu

huwchraddiad mesurydd clyfar, gyda bron naw o bob deg yn debygol o argymell. Mae pobl ifainc a'r rhai sydd â phlant gartref hefyd yn gadarnhaol iawn am eu mesuryddion clyfar.




Ffigur 11. Tebygolrwydd o argymell mesurydd clyfar i bobl eraill - dadansoddiad demograffaid

*Gweler t.30 am ddiffiniadau o grwpiau demograffaid

Gweld defnydd o ynni mewn punnoedd a cheiniogau yw prif apêl mesuryddion clyfar

Mae cael mynediad ar unwaith i wybodaeth am y defnydd o ynni yn un o fanteision allweddol symud o system ynni analog i fesuryddion clyfar digidol. Mae medru gweld a chadw trefn ar gostau'n flaenoriaeth i'r rhan fwyaf o bobl, gyda bron chwech o bob deg o bobl yn ystyried argaeledd defnydd o ynni mewn punnoedd a cheiniogau i fod

yn un o fanteision pennaf mesuryddion clyfar. Mae derbyn biliau cywir yn lle amcangyfrifon hefyd yn apelio'n benodol i ddefnyddwyr, ond mae diddordeb hefyd mewn argaeledd mesuryddion clyfar heb unrhyw gost ychwanegol a hyblygrwydd tariffau amser defnydd a gaiff eu galluogi gan fesuryddion clyfar.



Ffigur 12.


Apêl mesuryddion clyfar (y tri uchaf a ddewisir gan y rhai sy'n gwybod yn fanwl beth yw mesurydd clyfar)

*Mae'r ffigur hwn yn ganran o holl oedolion Prydain Fawr sy'n gwybod yn fanwl beth yw mesurydd clyfar. Ymysg cwsmeriaid rhagdalau sy'n gwybod yn fanwl beth yw mesurydd clyfar, mae'r ffigur hwn yn 48 y cant

Mae 8 o bob 10 o bobl sydd â mesuryddion clyfar wedi cymryd camau i leihau faint o ynni maen nhw'n ei wastraffu

Mae'r mwyafrif o bobl sydd â mesuryddion clyfar wedi gwneud newidiadau i'r ffordd y maent yn defnyddio ynni gartref ac mae bron un o bob tri wedi annog eraill i wneud yr un peth.

Mae llawer mwy o bobl yn cymryd camau bach i fynd i'r afael â gwastraffu ynni a bod yn fwy cynaliadwy, fel diffodd goleuadau nad ydynt yn cael eu defnyddio a defnyddio cyfarpar mewn ffyrdd sy'n defnyddio ynni'n fwy effeithlon.




Ffigur 13. Camau a gymerwyd i leihau'r defnydd o ynni ymysg pobl sydd â mesuryddion clyfar

Mae mesuryddion clyfar yn helpu pobl i deimlo bod ganddynt fwy o reolaeth dros faint o ynni maen nhw'n ei ddefnyddio a faint mae'n ei gostio

Mae mwy nag wyth o bob deg o bobl sydd â mesuryddion clyfar yn teimlo bod ganddynt ddealltwriaeth well o faint maen nhw'n ei wario ar ynni. Gyda'r defnydd o ynni'n cael ei ddangos mewn punnoedd a

cheiniogau, mae saith o bob deg o bobl yn teimlo bod ganddynt fwy o reolaeth dros yr ynni y maent yn ei ddefnyddio ac mae hanner yn arbed ynni ar eu biliau.




Ffigur 14.
Profiadau pobl sydd â mesuryddion clyfar

Mae mesuryddion clyfar yn golygu profiad gwell a mwy gwybodus o brynu a defnyddio ynni

Mae pobl sydd â mesuryddion clyfar yn llawer mwy tebygol o feddwl bod eu biliau'n gywir na'r rhai sydd â mesuryddion traddodiadol. Maent hefyd yn teimlo bod

ganddynt fwy o wybodaeth o ran dewis y cyflenwr ynni a thariff iawn iddynt hwy, ac maent yn fwy hyderus eu bod yn deall eu biliau ynni.



Ffigur 15.


Agweddau tuag at ynni: pobl gyda mesurydd clyfar vs. y rhai heb un

Mae manteision mesuryddion clyfar ar eu huchaf i'r rhai sydd wedi cael un am amser hwy

Mae pobl sydd â mesuryddion clyfar yn adrodd am brofiad mwy cadarnhaol o brynu a defnyddio ynni, ac mae'r rhai sydd wedi cael y dechnoleg newydd ers tro'n adrodd am hyd yn oed yn fwy o foddhad. Mae pobl sydd wedi cael mesurydd clyfar ers blwyddyn neu fwy yn fwy tebygol o

deimlo eu bod yn deall eu biliau na'r rhai a uwchraddiodd lai na blwyddyn yn ôl - naw pwynt canrannol yn fwy.

Yn yr un modd, mae pobl sydd wedi cael eu mesuryddion clyfar am gyfnod hwy yn fwy hyderus am gywirdeb eu biliau.



Ffigur 16.

Agweddau tuag at ynni: pobl sydd wedi cael mesurydd clyfar am lai na blwyddyn vs. y rhai sydd wedi cael un am fwy na blwyddyn

Astudiaeth achos:

Robert Kirkwood, Swydd Ayr, Yr Alban

Mae'r system goleuadau traffig ar sgrîn ynni cartref Robert wedi gwneud gwahaniaeth mawr i ddealltwriaeth ei fab o ddefnyddio ynni gartref, ac wedi rhoi dealltwriaeth newydd i Robert ei hun o ba gyfarpar sy'n defnyddio'r ynni mwyaf.

Mae Robert yn gynhyrchydd radio ac yn dad sengl i'w fab naw oed.

Gosodwyd fy mesurydd clyfar yn fuan ar ôl i mi newid cyflenwyr ynni - ni allaf byth wrthsefyll dyfais newydd ac er yr oedd i'w weld yn rhy dda i fod yn wir, gwnes ryw faint o ymchwil gan gael fy sicrhau bod pob aelwyd ym Mhrydain Fawr yn gymwys i gael un.

Fy hoff beth yw'r sgrîn ynni cartref. Roedd ein hen fesurydd traddodiadol wedi'i gloi i ffwrdd allan o'r golwg yn y cwpwrdd dan y grisiau, felly mae'n wych cael sgrîn arddangos digidol yn yr ystafell fyw sy'n atgoffa fi'n rheolaidd o faint o ynni rydym yn ei ddefnyddio a faint mae'n ei gostio.

"Mae'r system goleuadau traffig ar y sgrîn wedi bod o ddiddordeb penodol i fy mab - pan gawsom y mesurydd clyfar yn gyntaf roedd e'n dwlu ar gynnu ein holl gyfarpar i wneud i'r golau droi'n goch, a thynnu'r plygiau allan eto i weld pryd y byddai'n troi'n felyngoch ac yna gwyrrd.

Erbyn hyn mae ganddo ddealltwriaeth dda iawn o ba gyfarpar sy'n defnyddio'r ynni mwyaf, ac mae hynny wedi bod yn fantais annisgwyl ond hynod gadarnhaol o gael mesurydd clyfar.

"Mae wedi bod yn brofiad addysgol i mi hefyd. Roeddwn yn sicr bod yn rhaid i'r teledu wastraffu llawer o ynni, ond ces i fy synnu i ddarganfod ei fod yn defnyddio ychydig iawn. Ar y llaw arall, trodd allan fod y peiriant coffi'n un o fy nyfeisiau mwyaf aneffeithlon.

Roeddwn yn arfer cynnu'r cawod i wresogi cyn i mi fynd i mewn, ond gan y gallaf weld faint o ynni mae hynny'n ei ddefnyddio rwy'n llawer mwy gofalus bellach.


"Credaf mai'r peth pwysicaf yw'r rheolaeth y mae mesuryddion clyfar yn ei darparu. Mae medru gweld faint yr wyf yn ei wario yn ei gwneud yn llawer haws gostwng fy miliau trwy gwtogi ar wastraffu ynni, yn enwedig os wyf yn cael ychydig fisoedd hwb lawer o arian, dyma un o nodweddion hynod werthfawr y mesurydd clyfar."



Mae sgriniau ynni cartref (IHD) yn rhoi syniad gwell i bobl o faint maen nhw'n ei wario ar nwy a thrydan.

Mae IHD yn declyn llaw sy'n galluogi pobl i gadw rheolaeth ar eu defnydd ynni mewn punnoedd a cheiniogau, bron mewn amser real. Yn yr un modd ag edrych ar gloc digidol mae'r wybodaeth hon ar gael yn hwylus ac yn hawdd i darllen - gan roi syniad gwell i bobl o faint maen nhw'n ei wario ar ynni a helpu cymell nhw i fod yn fwy ymwybodol o ynni.

Cynigir IHD i bawb pan osodir eu mesurydd clyfar, a manteisiodd naw o bob deg o'r rhai a holwyd ar y cynnig. Byddai tua thri chwarter o bobl sydd ag IHD yn argymell mesurydd clyfar i eraill.



Ffigur 17.

Agweddau tuag at ynni: pobl â mesuryddion clyfar sydd ag IHD vs. y rhai nad oes ganddynt IHD




Ffigur 18.

Tebygolrwydd o argymell mesurydd clyfar i bobl eraill: pobl â mesuryddion clyfar sydd ag IHD vs. y rhai nad oes ganddynt IHD


Mae pobl yn defnyddio eu IHD yn amlach nag apiau neu wefannau

Mae gan naw o bob deg o bobl sydd â mesuryddion clyfar IHD i gadw eu defnydd o ynni mewn golwg, mewn punnoedd a cheiniogau. Ac mae 36 y cant yn dewis defnyddio mwy nag un dull o gael mynediad at ddata ynni, naill ai drwy ap neu wefan.

Yr hyn sy'n bwysig hefyd yw bod yr IHD yn cael ei wirio'n fwy rheolaidd na llwyfannau eraill, gyda 74 y cant yn gwirio eu IHD o leiaf nifer o weithiau bob mis a mwy a hanner o'r nifer hwnnw'n gwirio eu IHD bob dydd. Mae hynny mewn cymhariaeth â dim ond naw y cant o bobl sy'n gwirio ap bob dydd, a dim ond dau y cant sy'n gwirio cyfrif ar-lein.



Ffigur 19. Pa mor aml y mae pobl sydd â mesuryddion clyfar yn gwirio eu IHD vs. ap vs. gwefan




Ffigur 20. Pobl â mesuryddion clyfar sydd ag IHD vs. y rhai sydd â mynediad i ap neu wefan

Mae lefelau pryder am fesuryddion clyfar ymysg defnyddwyr yn isel

Mae'r *Rhagolwg ynni clyfar* hefyd yn adlewyrchu i ba raddau y gallai unrhyw storïau am fesuryddion clyfar fod yn achosi pryderon ymysg defnyddwyr am y dechnoleg newydd. Dim ond pedwar

y cant o bobl ym Mhrydain sy'n crybwyll preifatrwydd fel pryder, a dim ond un y cant sy'n cwestiynu p'un a allai mesuryddion clyfar godi eu biliau.



Ffigur 21.
Mynegi pryderon am fesuryddion clyfar

Diffiniadau o is-grwpiau

Yn ogystal ag oedran, rhyw, rhanbarth a grŵp cymdeithasol-economaidd, mae'r data wedi'i gylchrannu yn ôl 'cynulleidfa â rhwystrau ychwanegol'.
Diffinnir y rhain fel:

Talu trwy fesurydd rhagdal

y rhai sy'n talu am eu trydan neu nwy trwy fesurydd rhagdal

Tlodi tanwydd

y rhai sy'n gwario 10 y cant neu fwy o'u hincwm ar danwydd

Aelwyd ag incwm isel

yr aelwydydd hynny sydd ag incwm o lai na £13,999 y flwyddyn

Rhentwyr

y rhai sy'n rhentu'r eiddo y maent yn byw ynddo

Rhentwyr grŵp

y rhai sy'n rhentu gydag o leiaf dau berson arall nad ydynt yn bartneriaid iddynt

Anabledd yn yr aelwyd

y rhai gyda chyflwr iechyd sy'n effeithio ar eu gallu i wneud gweithgareddau bob dydd - wedi'i rannu fesul iechyd corfforol a meddyliol

ABC1, C2DE

dosbarthiadau demograffaid sy'n seiliedig ar swydd y penteulu, fel a ddiffinnir gan y Gymdeithas Ymchwil Farchnata



I gael mwy o wybodaeth am fesuryddion clyfar,
ewch i **smartenergyGB.org/cy**